

# Polisi Cloi

<b>Awdur</b>	Alwyn Lloyd
<b>Dyddiad Cyhoeddi</b>	24 <sup>ain</sup> Ionawr 2019
<b>Asesu Effaith Cydraddoldeb</b>	Y
<b>Asesu Effaith Ieithyddol</b>	Y
<b>Statws</b>	Byw
<b>Wedi ei gymeradwyo gan</b>	Y Bwrdd Llywodraethu
<b>Dyddiad ei gymeradwyo</b>	31 <sup>ain</sup> Ionawr 2019
<b>Dyddiad adolygu</b>	18 <sup>fed</sup> Ionawr 2021
<b>Dyddiad cychwyn ei weithredu</b>	13 <sup>eg</sup> Chwefror 2019

## Cynnwys

<i>Sail resymegol dros gael Gweithdrefn Cloi'r Coleg .....</i>	<b>3</b>
<i>Egwyddorion Sylfaenol Cloi'r Coleg .....</i>	<b>3</b>
<i>Trefniadau Cloi'r Coleg .....</i>	<b>4</b>
<i>Trefn Cyfathrebu yn ystod Cloi'r Coleg.....</i>	<b>5</b>
<i>Atodiad .....</i>	<b>6</b>

## i. Sail resymegol dros gael Gweithdrefn Cloi'r Coleg

Gweithdrefnau cloi'r coleg (*lockdown*) ydy'r ymateb i unrhyw ddigwyddiad allanol neu fewnol sydd a phosibilrwydd o fod yn fygythiad i ddiogelwch staff a myfyrwyr yn y coleg. Nod y gweithdrefnau fydd lleihau unrhyw darfu ar yr amgylchedd dysgu ac ar yr un pryd sicrhau bod yr holl fyfyrwyr a staff yn ddiogel. Gellir eu rhoi ar waith fel ymateb i nifer o sefyllfaoedd, ond dyma rai o'r rhai mwyaf tebygol:

- Digwyddiad / cynnwrf sifil wedi ei riportio yn y gymuned leol (gyda'r potensial o fod yn risg i staff a myfyrwyr yn y coleg)
- Ymwthiwr/ymwthwraig (*intruder*) ar safle'r coleg sy'n risg i staff a myfyrwyr.
- Bygythiad credadwy wedi ei wneud yn erbyn y coleg.
- Rhybudd wedi'i dderbyn ynglŷn â risg leol, megis llygru'r awyr (cwmwl o fwg, cwmwl nwy ayb.)
- Tân difrifol yn ymyl y coleg.

## ii. Egwyddorion Sylfaenol Cloi'r Coleg

Dyma'r egwyddorion sylfaenol y dylid eu dilyn pan fo angen 'Cloi'r Coleg' (*Lockdown*):

- Rhybuddio'r staff a myfyrwyr bod cloi'r coleg ar ddigwydd drwy ganu cloch y coleg. **Nid dyma'r larwm tân** (gweler nes ymlaen).
- Staff i dderbyn negeseuon testun ac e-bost mewnol bod y coleg wedi ei gloi.
- Myfyrwyr sydd tu allan i'r adeiladau'r coleg i'w cyrchu i mewn cyn gynted â phosibl.
- Y rhai sydd o fewn y coleg i aros yn eu stafelloedd dosbarth.
- Lle bo hynny'n bosibl, dylid cloi pob ffenestr a lle bo'n bosibl dylai pob drws mewnol i stafelloedd dosbarth gael ei gloi.
- Dylai staff sicrhau bod myfyrwyr sydd yn ardaloedd cymunedol / cymdeithasu'r coleg yn cael eu hatal rhag gadael.
- Dylai staff gymell y myfyrwyr i beidio â chynhyrfu.
- Yn ôl yr hyn fyddai'n addas, dylai'r coleg gysylltu gyda'r Gwasanaethau Brys cyn gynted â phosibl.
- Os oes angen, dylid hysbysu'r rhieni cyn gynted ag y mae'n ymarferol i wneud hynny drwy'r system gyfathrebu y mae'r coleg wedi'i sefydlu.
- Ni fydd myfyrwyr yn cael eu rhyddhau yn ystod cyfnod cloi'r coleg.
- Os bydd angen i bawb adael yr adeilad, bydd y larwm tân yn cael ei seinio.
- Dylai staff aros am fwy o gyfarwyddiadau drwy'r system gyfathrebu ddiffwdan. Mae hyn yn cynnwys y system e-bost mewnol a thrwy neges testun.

Mae'n eithriadol bwysig bod yr uwch dîm rheoli, y staff gwasanaethau proffesiynol a'r staff addysg yn gwbl gyfarwydd â gweithdrefnau cloi'r coleg. Cyfathrebir hyn a'i roi ar waith drwy drefn datblygiad staff a thrwy ymarferion. Dylid hysbysu'r myfyrwyr am weithdrefnau cloi'r coleg yn ystod rhaglen sefydlu fugeiliol y coleg. Dylai rhieni gael gwybod bod gan y coleg gynllun cloi (*lockdown*) a dylid gosod copi ohono ar wefan y coleg, yn Gymraeg a Saesneg.

### iii. Trefniadau Cloi'r Coleg

#### 1 Cloi'r Coleg yn Rhannol

Neges rhybudd i staff: 'Cloi'r coleg yn rhannol'

Cam rhagofalus ydy 'Cloi'r coleg yn rhannol/*partial lockdown*' ond mae'n gosod y coleg mewn sefyllfa o fod yn barod (tra'n cadw peth normalrwydd) pe byddai'r sefyllfa'n gwaethygu. Gallai hyn fod oherwydd bod digwyddiad wedi'i riportio yn yr ardal leol allai fod yn achosi risg i staff a myfyrwyr yn y coleg. Gallai hefyd fod yn digwydd ar ôl derbyn rhybudd ynglŷn â risg o lygredd yn yr awyr, ayb.

**Y rhybudd ar gyfer 'Cloi'r coleg yn rhannol' ydy 5 caniad ar gloch y coleg gan Y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth. Rhoddir gwybod i'r staff bod trefn cloi'r coleg yn rhannol ar waith drwy neges testun ac e-bost.**

Dylid gweithredu ar unwaith fel hyn:

- Pob gweithgaredd allanol i ddod i ben ar ei union, y myfyrwyr a staff i ddychwelyd i'r adeilad. Myfyrwyr Ymarfer Corff i fynd i'r Neuadd Chwaraeon. Myfyrwyr ar egwyl i fynd i ystafell ddosbarth eu gwern nesaf.
- Yr holl staff a myfyrwyr i aros o fewn yr adeilad, gyda'r drysau a'r ffenestri wedi eu cloi.
- Gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, efallai y caniateir symud o fewn adeiladau, ond nid rhwng yr adeiladau unigol.
- Bydd myfyrwyr sydd yn yr ardaloedd cymunedol, megis y ffreutur a'r brif neuadd yn cael eu symud i'r ffreutur a'u goruchwyllo yno gan aelod o'r uwch dîm rheoli.

Mae pob sefyllfa'n debygol o fod yn wahanol, ac un waith bydd yr holl staff a myfyrwyr yn ddiogel o fewn yr adeilad, bydd uwch staff yn cynnal asesiad risg parhaus a deinamig, seiliedig ar gyngor y Gwasanaethau Brys. Gellir wedyn gyfleu hyn i'r staff a myfyrwyr.

#### 2 Cloi'r Coleg yn Gyfangwbl

Neges rhybudd i staff: 'Cloi'r Coleg yn Gyfangwbl (*Full Lockdown*)'

**Mae hwn yn golygu bod bygythiad uniongyrchol i'r coleg a gall fod yn ymestyniad o sefyllfa cloi'r coleg yn rhannol - a'r rhybydd ar gyfer hwn fydd 10 caniad ar gloch y coleg gan Y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth. Rhoddir gwybod i'r staff bod trefn cloi'r coleg yn gyfangwbl ar waith drwy neges testun ac e-bost.**

Dylid gweithredu ar unwaith fel hyn: :

- Pob gweithgaredd allanol i ddod i ben ar ei union, myfyrwyr a staff i ddychwelyd i'r adeilad. Myfyrwyr Ymarfer Corff i fynd i'r Neuadd Chwaraeon. Myfyrwyr ar egwyl i fynd i ystafell ddosbarth eu gwern nesaf.
- Yr holl staff a myfyrwyr i aros o fewn yr adeilad, gyda'r drysau a'r ffenestri wedi eu cloi, lle bo hynny'n bosibl.

- Bydd myfyrwyr sydd yn yr ardaloedd cymunedol, megis y ffreutur a'r brif neuadd, yn cael eu symud i'r ffreutur a'u goruchwyllo yno gan aelod o'r uwch dîm rheoli.

Bydd y staff a myfyrwyr yn parhau mewn sefyllfa cloi'r coleg nes bydd naill ai'r Pennaeth neu Ddirprwy Bennaeth / y Gwasanaethau Brys yn dod â'r cyfan i ben. Ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod o gloi'r coleg, gallai'r larwm tân gael ei seinio, fydd yn arwydd i bawb adael yr adeilad.

Yn ystod cloi'r coleg, bydd staff yn cadw'r dulliau cyfathrebu yn glir heb wneud galwadau diangen i'r swyddfa ganolog, gan y gallai hyn lesteirio cyfathrebu pwysicach.

## iv. Trefn Cyfathrebu yn ystod Cloi'r Coleg

### Cyfathrebu rhwng rhieni a'r coleg

Bydd gweithdrefnau cloi'r coleg, yn arbennig y trefniadau cysylltu â rhiant, yn cael eu cyfleu i'r rhieni drwy wefan y coleg. Yn achos gwirioneddol o gloi'r coleg, rhaid cyfleu'r digwyddiad neu'r datblygiadau i'r rhieni mor fuan ag sy'n ymarferol bosibl. Yn amlwg bydd rhieni'n gofidio ond bydd anfon negeseuon rheolaidd o wybodaeth gywir yn help i leddfu unrhyw bryder gormodol.

Dylai rhieni dderbyn digon o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd i wneud y canlynol:

- Eu bod yn cael eu sicrhau bod y coleg yn deall eu pryder am les y dysgwyr, a bod popeth posibl yn cael ei wneud i sicrhau eu diogelwch.
- Eu sicrhau na fydd angen iddyn nhw gysylltu â'r coleg. Gallai ffonio'r coleg ddefnyddio'r llinellau y byddwn eu hangen i gysylltu â darparwyr y gwasanaethau brys.
- Iddyn nhw beidio â dod i'r coleg. Gallen nhw ymyrryd â mynediad y gwasanaethau brys i'r coleg ac efallai beryglu eu hunain neu eraill.
- Iddyn nhw aros nes bod cyfnod cloi'r coleg wedi dod i ben.

Pan fydd y coleg wedi cloi'n gyfangwbl, bydd y coleg yn cyfathrebu'r sefyllfa drwy Twitter. Yn ystod y cyfnod hwn, ni fydd neb ar y switsfwrdd, bydd pob drws allanol wedi'i gloi ac ni fydd unrhyw un yn cael gadael na dod i mewn.

### Y Gwasanaethau Brys

Mae'n bwysig bod y llinellau ffôn i'r Gwasanaethau Brys yn cael eu cadw'n rhydd gan mai dyna'r ffordd orau i dderbyn cyngor wrth i'r sefyllfa ddatblygu. Efallai bydd safle'r coleg wedi ei chau gan y Gwasanaethau Brys, gan ddibynnu pa mor ddifrifol ydy'r digwyddiad sydd wedi achosi i'r coleg gael ei gloi. Bydd y Gwasanaethau Brys yn cynorthwyo penderfyniad y Pennaeth ynglŷn ag amseru negeseuon i'r rhieni.

## Atodiad

Defnyddiwyd gwybodaeth ar gyfer creu y gweithdrefnau hyn oddi ar wefan y llywodraeth, sef <https://www.gov.uk/government/publications/developing-dynamic-lockdown-procedures>

Defnyddiwyd hefyd y canllawiau sydd wedi eu darparu gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Gwnstabiliaid (*National Police Chiefs Council*) - NPCC.